# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 7

UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD

### PENNOD 1

UNO PRIF ARDALOEDD YN WIRFODDOL

*Ceisiadau i uno*

**122 Ymgynghori cyn gwneud cais i uno**

(1) Cyn gwneud cais i uno rhaid i'r prif gynghorau ymgynghori â'r canlynol—

(a) pobl leol yn ardaloedd y prif gynghorau,

(b) pob un o'r cynghorau ar gyfer cymunedau yn ardaloedd y prif gynghorau,

(c) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono o fewn ardaloedd un neu ragor o'r prif gynghorau,

(d) yr awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardaloedd un neu ragor o'r prif gynghorau,

(e) y bwrdd neu'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd y prif gynghorau,

(f) y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni o fewn ardaloedd un neu ragor o'r prif gynghorau,

(g) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir i "recognised" yn Neddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p. 52)) gan un neu ragor o'r prif gynghorau,

(h) pob prif gyngor arall ar gyfer prif ardal y mae'r cynnig i uno yn debygol o effeithio arni, ac

(i) unrhyw bersonau eraill y mae'r prif gynghorau yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(2) Gellir bodloni'r gofyniad yn is-adran (1) drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn i'r adran hon ddod i rym.